

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y cyfarfod	19 Hydref 2023
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cyng. Barry Mellor (Aelod Arweiniol Priffyrdd a'r Amgylchedd) / Tony Ward (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd a'r Economi)
Pennaeth y Gwasanaeth	Paul Jackson
Awdur yr adroddiad	Simon Lammond, Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu / Lowri Roberts, Rheolwr Prosiect
Teitl	Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Brosiect Ailfodelu'r Gwasanaeth Gwastraff

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ynghylch y newid arfaethedig i wasanaethau casglu gwastraff yn Sir Ddinbych.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Mae'r adroddiad i roi gwybod i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau am gynnydd presennol y prosiect ac i amlygu'r risg o ran cymeradwyo'r drwydded weithredol sydd ei hangen ar gyfer Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd Dinbych yn amserol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod Pwyllgor Craffu Cymunedau yn trafod cynnwys yr adroddiad ac yn rhoi sylwadau ar yr elfennau hyn.
- 3.2. Bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les diweddar (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Ym mis Rhagfyr 2018 cytunodd y Cabinet y byddai model casglu gwastraff Sir Ddinbych yn newid o fodel ailgylchu cymysg i system didoli ymyl y ffordd newydd. Mae hyn yn cynnwys newidiadau eraill i wasanaethau megis cyflwyno gwasanaeth Cynhyrchion Hylendid Amsugol newydd a newid casgliadau na ellir eu hailgylchu i 4 wythnos.
- 4.2. Mae angen sawl elfen i gefnogi'r newid i'r gwasanaeth, a'r buddsoddiad allweddol yw Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff (GTG) newydd addas i'r diben yn Ninbych. Bydd yr orsaf newydd yn cael ei chwblhau ym mis Rhagfyr 2023. Er mwyn i'r orsaf newydd ddod yn weithredol, rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru gymeradwyo trwydded. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr orsaf newydd yn bodloni'r holl ofynion rheoleiddiol a nodir gan CNC.
- 4.3. Ym mis Ionawr 2023 cyflwynodd Sir Ddinbych y cais am drwydded ar gyfer yr orsaf trosglwyddo gwastraff newydd yn Ninbych. Bu oedi sylweddol gan CNC wrth 'wneud y cais yn briodol' oherwydd swm sylweddol o waith. Ym mis Gorffennaf 2023 hysbyswyd CSDd bod swyddog wedi'i ddyrannu i'r cais. Cafodd y cais ei 'wneud yn briodol' ar 04/09/2023.
- 4.4. Yn dilyn y statws wedi'i wneud yn briodol, cynhelir cyfnod o asesiad technegol. Bydd CNC yn cyhoeddi Hysbysiad Atodlen 5 os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnynt. Bydd CNC yn anelu at gwblhau'r broses o fewn cyfnod o 4 mis, ond mae'r 4 mis hwn yn ymwneud ag amser CNC yn unig. Pan wneir ceisiadau am wybodaeth i CSDd bydd y cloc yn stopio, gall hyn ymestyn yr amserlen 4 mis yn sylweddol yn dibynnu ar natur y wybodaeth y gofynnir amdani.
- 4.5. Mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwastraff gynnal ymarfer recriwtio sylweddol er mwyn sicrhau bod gan y gwasanaeth yr adnoddau llawn i gyflawni gweithrediad y gwasanaeth. Yn dilyn trafodaeth gyda CNC ym mis Medi, ac adolygiad o'r gweithgareddau cynllunio allweddol ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth newydd, rydym yn cynllunio i'r gwasanaeth newydd gael ei roi ar waith o fis Mehefin 2024.

Cyflwyno'r Gwasanaeth Cynnyrch Hylendid Amsugol

- 4.6. Mae'r gwasanaeth Cynnyrch Hylendid Amsugol newydd wedi mynd yn fyw ar 25 Medi. Mae hwn ar hyn o bryd yn wasanaeth peilot ar gyfer ardaloedd cod post

LL16 / LL17. Mae'r ardal hon yn cynnwys Llanelwy, Dinbych, Bodfari, Llandyrnog, Llanrhaeadr, Henllan, Nantglyn, y Grîn, Trefnant, Allt Goch, Rhualt a Thremeirchion.

- 4.7. Mae tua 600 o aelwydydd wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn, roedd y nifer hwn o fewn yr ystod ddisgwyliedig oherwydd cyfansoddiad demograffig y ddwy ardal. Mae 8,890 o aelwydydd o fewn y ddwy ardal beilot, yn seiliedig ar ganran gofrestru gyfartalog o tua 8%, y disgwyl oedd y byddai tua 711 o aelwydydd yn gymwys. Mae'n bwysig nodi bod cyfraddau cofrestru ledled Cymru yn amrywio'n sylweddol, yn ôl pob tebyg oherwydd demograffeg.
- 4.8. Bydd swyddogion gorfodi yn gwasanaethu'r ardal hon fel rhan o'r prosiect peilot i gynghori trigolion ac i fonitro'r gostyngiad yn y cynnyrch hylendid amsugol yn y ffrwd gwastraff gweddilliol. Mae'r dull hwn yn caniatáu gwell monitro a rheolaeth o'r peilot gan fod yr ardal a dargedir yn fwy effeithlon yn weithredol ac yn darparu cysylltiadau trafnidiaeth hygyrch i Barc Adfer a fydd yn prosesu'r gwastraff nes i'r gwasanaeth newydd gael ei lansio.

Aelwydydd Gwasanaethau Ansafonol

- 4.9. Mae'r gwasanaeth Gwastraff yn darparu gwasanaeth safonol ar draws y sir, ond nid yw pob eiddo yn addas ar gyfer y gwasanaeth safonol oherwydd problemau storio, er enghraifft aelwydydd cymunol. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaeth ansafonol ar gyfer yr aelwydydd hyn, sy'n wasanaeth sach yn bennaf. Ar draws Sir Ddinbych ar hyn o bryd mae 5,203 o eiddo ansafonol.
- 4.10. Mae'r gwasanaeth wedi cynnal arolwg o'r aelwydydd ansafonol hyn cyn rhoi'r gwasanaeth newydd ar waith. Bydd angen atebion newydd ar gyfer rhai cartrefi gan y bydd angen casglu ailgylchu sych wrth wahanu yn y ffynhonnell. Mae'r 5,203 o eiddo ansafonol wedi'u dyrannu i gategoriâu, sef:
- Gwyrdd (3,398 eiddo)
 - Oren (915 eiddo)
 - Coch (890 eiddo)
- 4.11. Yn dilyn yr arolwg, penderfynwyd y bydd yr aelwydydd 'gwyrdd' yn gallu cael trolibocs (y gwasanaeth safonol) yn eu heiddo. Dyma'r mwyafrif o aelwydydd

ansafonol ar hyn o bryd. Bydd angen 'plymio'n ddwfn' ymhellach ar gyfer eiddo Oren a disgwylir y gallai rhai o'r rhain fod â trolibocs, byddai gan y gweddill ateb cymunol megis cynwysyddion 240 litr wedi'u gwahanu yn y ffynhonnell yn lle'r biniau 1,100 litr cymysg, a byddai gan rai eiddo wasanaeth sach. Byddai angen gwasanaeth sachau ar bob eiddo coch o hyd.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Themâu Corfforaethol?

- 5.1. Mae gweithredu'r gwasanaeth gwastraff newydd yn gysylltiedig â'r flaenoriaeth gorfforaethol 'Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd'. Mae hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r thema i wella cyfraddau ailgylchu a lleihau gwastraff drwy gyflwyno'r system ailgylchu ymyl y ffordd newydd o 2024. Bydd hyn yn sail i ymrwymiad Sir Ddinbych i ddod yn sefydliad Di-Garbon Net erbyn 2030.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Cwmpesir costau gweithredu'r newidiadau newydd i'r gwasanaeth o ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer paratoi a chynwysyddion o fewn cyllideb gyffredinol y prosiect.
- 6.2. Bydd gweithredu'n gwasanaeth newydd yn effeithio ar amryw o wasanaethau'r cyngor, gan gynnwys Gwasanaethau i Gwsmeriaid a'r Tîm Cyfathrebu, ac mae cynrychiolwyr o'r meysydd gwasanaeth hyn wedi eu cynnwys yn y timau prosiect perthnasol ar gyfer ffrydiau gwaith paratoi.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

- 7.1. Mae canlyniad terfynol yr Asesiad o Effaith ar Les yn gadarnhaol – gweler Atodiad 1 i gael rhagor o fanylion.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1. Cafodd yr egwyddor o weithredu model gwastraff newydd, sy'n dilyn glasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gwastraff, ei gymeradwyo'n wreiddiol gan y Grŵp Buddsoddi Strategol a'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2018. Cyflwynwyd Achos Busnes wedi ei ddiweddarau hefyd i'r Cabinet ym mis Ebrill 2022, a'i gymeradwyo.

- 8.2. Ym mis Rhagfyr 2021 darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, ac yr oedd yr adroddiad hwn hefyd yn cynnwys Polisi Casgliadau Gwastraff wedi ei ddiweddarau.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. Er nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r adroddiad hwn, mae'r achos busnes dros fuddsoddiad cyfalaf mawr ym maes gwastraff dros y blynyddoedd diwethaf wedi ei seilio ar oblygiadau'r model a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn o ran refeniw.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1. Y mae tair risg allweddol yn ymwneud â gweithredu'r model gwasanaeth newydd erbyn mis Mawrth 2024. Y rhain yw:

- **Cymeradwyo Trwydded:** Mae gweithrediadau yn yr orsaf newydd yn amodol ar gymeradwyo trwydded bwrpasol, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2023 i Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n rhaid cymeradwyo'r drwydded hon cyn gallu newid y gwasanaeth. Gall y broses hon gymryd tua 12 mis, ond yr ydym yn ymgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru ar lefel weithredol a strategol ynglŷn â'r mater hwn.
- **Parodrwydd yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff:** Mae'r orsaf i fod i gael ei chwblhau ym mis Rhagfyr 2023. Mae hyn ar y trywydd iawn ar hyn o bryd, a ddylai ganiatáu i'r orsaf fod yn barod ar gyfer cydosod a dosbarthu cynwysyddion yn barod i'w cyflwyno i breswylwyr. Mae'r cynnydd at gwblhau'r orsaf yn cael ei reoli a'i fonitro gan y Tîm Prosiect a'r Bwrdd.
- **Argaeledd Staff:** Er bod cynlluniau ar waith i recriwtio'r staff sydd eu hangen i redeg y gwasanaeth newydd, mae risg na chaiff y cwota llawn o swyddi ei lenwi. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gydag AD i gynllunio'r ymarfer recriwtio mwyaf priodol ar gyfer y mathau hyn o rolau a bydd hefyd yn gweithio gyda Sir Ddinbych yn Gweithio ar recriwtio staff a lleoliadau gwaith.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

- 11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor